

amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran

Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storiâu hyn o lyfr Exodus

Yn y rhifyn hwn, mae "ch", "dd", "ff", "ng", "ll", "ph", "rh" ac "th" yn cael eu trin fel dwy lythyren yn y posau a rhoddir nhw mewn dau flwch ar wahân



DARLLENWCH
Exodus 1 a 2



ADNOD
ALLWEDDOL
Hebraid 11:23

Gofynnwch am
help i chwilio am
yr adnod hon

Stori 1 Genedigaeth Moses.



Roedd yr Israeliaid yn perthyn i linach Joseff a'i frodyr. Roedden nhw wedi bod yn byw yn yr Aiffet ers nifer o flynyddoedd. Daeth brenin newydd i'r orsedd yn yr Aiffet a doedd e ddim yn hapus bod yr estroniaid hyn yn ei wlad. Roedd ofn arno y bydden nhw'n mynd yn fwy niferus na'i bobl ei hun. Gorfododd yr Israeliaid i weithio fel caethweision.

Lliwiwch y llun

4

C Beth oedd yr Israeliaid?

C _____

Roedd y Brenin Pharo mor gynddeiriog, penderfynodd foddï holl fechgyn bach yr Israeliaid yn yr Afon Neil. (Gelwir yr Israeliaid yn Hebraid weithiau.) Cafodd Moses ei eni bryd hyn. Roedd yn faban hardd ac roedd ei rieni yn credu y byddai Duw'n ei warchod rhag milwyr Pharo. Cuddiodd rhieni Moses eu mab bach yn y tŷ am dri mis, ond doedd dim modd iddyn nhw ei guddio am hir wedi hynny. Aeth ei fam ati i wneud cawell diddos o lafrwyn. Gosododd y baban yn y cawell a'i guddio yn y corswellt ar lan yr afon.

C Beth oedd enw'r afon? Lliwiwch bob sgwâr sy'n cynnwys X er mwyn dod o hyd i'r ateb cywir.

X	A	X	F	X	O	X	X	N	X	X
X	N	X	E	X	I	X	L	X		

4

Anfonwyd Miriam, chwaer y baban, i weld beth fyddai'n digwydd iddo. Daeth merch Pharo o hyd i'r bachgen bach pan ddaeth i lawr i'r afon i ymdrochi. Pan welodd hi'r baban, roedd e'n crïo, ac roedd hi'n teimlo'n flin drosto. Sylweddolodd mai un o fabanod yr Hebreaid oedd e. Cynigiodd Miriam ddod o hyd i nyrs i'r baban. Aeth Miriam i nôl mam y baban er mwyn iddi hi edrych ar ei ôl ar ran merch Pharo! Ar ôl peth amser, aeth merch Pharo ag ef i'r palas i'w fagu fel ei mab ei hun.



C Ysgrifennwch DO neu NADDO ar ôl y canlynol:

8

1. Daeth y Brenin Pharo o hyd i'r baban.
2. Cynigiodd Miriam ddod o hyd i nyrs.
3. Cuddiodd rhieni'r baban ef am bedwar mis.
4. Roedd gan ei rieni ffydd yn Nuw.

Roedd Duw wedi bod yn gwyllo dros Moses drwy'r amser. Dylai fod wedi cael ei fodd fel pob un o'r bechgyn bach arall, ond roedd gan ei rieni FFYDD yn Nuw. Roedden nhw'n credu y byddai Duw yn gofalu amdano. Bydd Duw yn gofalu amdanom ni heddiw, os byddwn yn ymddiried ynddo Ef.

“Bydded
gennych ffydd
yn Nuw.”

4

Lliwiwch y geiriau o Efengyl Marc 11:22.